



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol
Comisiwn Ffiniau i Gymru

Canllaw i'r Arolwg 2023

Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad	04
	Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	04
Pennod 2	Paratoi ar gyfer yr arolwg	
	Data etholwyr ar gyfer Arolwg 2023	06
	Dosbarthiad etholaethau	06
	Ffiniau llywodraeth leol perthnasol	06
Pennod 3	Datblygu cynigion - gofynion a pholisi	07
	Amrediad etholiadol statudol	07
	Ffactorau statudol eraill	07
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	07
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	07
	Ffiniau etholaethau presennol	08
	Yr anhawsterau a achosir gan y newidiadau	08
	Cydadwaith yr ystyriaethau	08
	Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried	09
	Effaith canlyniadau etholiadau yn y dyfodol	09
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	09
	Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020	09
	Enwi a dynodi etholaethau	09
	Enwi	09
	Dynodi	10
	Y Gymraeg	10
	Effaith y ddeddfwriaeth	10
Pennod 4	Datblygu cynigion	11
	Pwysigrwydd cyfranogi	11
	Paratoi cynigion cychwynnol	12
	Cyhoeddi cynigion cychwynnol	12
	Cyfnod ymgynghori cychwynnol	12
	Cyfnod ymgynghori eilaidd	13
	Gwrandawliadau cyhoeddus	13
	Ystyried cynrychiolaethau a chynigion diwygiedig	14
	Trydydd cyfnod ymgynghori	14
	Argymhellion ac adroddiad terfynol	15
Pennod 5	Ar ol yr adroddiad terfynol	16
	Gweithdrefn Seneddol	16
Atodiad A	Cyfansoddiad y Comisiwn	17
Atodiad B	Rheolau ar gyfer etholaethau	18
Atodiad C	Geirfa a byrfodau	21
Atodiad D	Siart lif o'r broses	23

This document is available in English
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2021


Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn ymholiadau@ffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.comffin-cymru.gov.uk

Pennod 1: Cyflwyniad



Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1.1 Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol a diduedd. Amlinellir ein cyfansoddiad yn Atodiad A, a'n haelodaeth bresennol yw:

Cadeirydd	Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
Dirprwy Gadeirydd	Mrs Justice Jefford DBE
Comisiynywyr	Sam A Hartley Huw Vaughan Thomas CBE
Ysgrifennydd	Shereen Williams MBE OSTJ

1.2 Rydym yn gyfrifol am arolygu ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru ar sail rheolau a osodwyd gan y Senedd. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad ffurfiol erbyn 1 Gorffennaf 2023 ar sail rheolau a osodwyd yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020). Bydd hyn yn golygu lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru yn sylweddol o'r 40 presennol i 32.

1.3 Er mwyn paratoi ein hadroddiad, byddwn yn cynnal proses arolygu. Cyfeiriwn at y broses hon fel 'Arolwg 2023'.

1.4 Bydd ymgynghori â'r cyhoedd yn rhan bwysig o arolwg 2023. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cynigion cychwynnol sy'n amlinellu'r newidiadau y credwn eu bod yn briodol i ddsbarthiad, maint, siâp, enw neu ddynodiad etholaethau ledled Cymru. Yna, byddwn yn ystyried cynrychiolaethau ysgrifenedig a llafar gan y cyhoedd ynglŷn â'n cynigion, mewn proses strwythuredig a gynlluniwyd i'n helpu i baratoi argymhellion i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol y byddwn yn ei baratoi ar gyfer y Senedd. Bydd yr argymhellion a gynhwysir yn ein hadroddiad yn cael eu rhoi ar waith gan broses ddilynol yn y Senedd.

1.5 Rydym wedi cynhyrchu'r canllaw hwn i helpu i esbonio'r broses ar gyfer Arolwg 2023 yn fanylach. Ni fwriedir i'r canllaw hwn fod yn ddatganiad llawn o'r gyfraith sy'n ymwneud â'r arolwg. Yn hytrach, mae'n ymdrin â'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn dweud y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei wneud a'r polisiau y mae'r Comisiwn wedi penderfynu eu mabwysiadu wrth ddatblygu ei gynigion a'i argymhellion terfynol.

1.6 Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn egluro ein prosesau a'n polisiau. Gobeithiwn hefyd y bydd yn annog y rhai hynny a allai fod yn ystyried lleisio eu barn i wneud hynny mewn modd effeithiol ac ar sail yr holl wybodaeth. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gallai unigolion ddymuno gofyn cwestiynau, a dylai'r rhain gael eu cyfeirio atom yn:


Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Rhif ffôn: 029 2046 4819
Ffacs: 029 2046 4823
E-bost: ymholiadau@ffiniau.cymru
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

Byddwn yn diweddarau gwybodaeth ar ein gwefan drwy gydol ein proses arolygu a bydd dogfennau allweddol ar gael trwy'r wefan.

1.7 Sylwer bod Comisiynau Ffiniau Seneddol ar wahân ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, mae cyrff ar wahân sy'n gyfrifol am arolygu ffiniau llywodraeth leol, gan gynnwys y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yng Nghymru a chyrrff tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ni fwriedir i'r canllaw hwn fynd i'r afael â swyddogaethau'r comisiynau ffiniau a'r cyrrff eraill hyn.

1.8 Hoffem bwysleisio bod yr arolwg hwn yn ymwneud yn unig â'r etholaethau seneddol ac nad yw'n effeithio ar etholaethau'r Senedd; ffiniau prif gynghorau, wardiau etholiadol na chymunedol; trethi; na gwasanaethau. Nid oes gofyniad i arolygu 40 etholaeth y Senedd yn dilyn unrhyw arolwg o etholaethau San Steffan.



Pennod 2:

Paratoi ar gyfer yr arolwg

Data etholwyr ar gyfer Arolwg 2023

- 2.1 Mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeiriwn ati fel 'y Ddeddf' yn y canllaw hwn) yn nodi pa ffigurau etholwyr y dylai'r Comisiwn eu defnyddio wrth gynnal arolwg. Ar gyfer Arolwg 2023, mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio cyfanswm nifer yr unigolion yr oedd eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol gyhoeddus ar 2 Mawrth 2020.
- 2.2 Mae'r Comisiwn wedi cael y ffigurau etholwyr hyn ar gyfer Arolwg 2023 o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn ar ei wefan – <https://comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/01-21/arolwg-2023>.

Dosbarthiad etholaethau

- 2.3 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod nifer benodedig o 650 o etholaethau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fformiwla fathemategol i bennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i bob un o 4 rhan y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon), yn seiliedig ar y ffigurau etholwyr y cyfeiriwyd atynt uchod.
- 2.4 Yn unol â'r fformiwla honno, mae 32 o etholaethau wedi'u dyrannu i Gymru o dan y Ddeddf. Mae'n rhaid i etholaethau Cymru fod yn gyfan gwbl o fewn Cymru, ac ni allant gynnwys ardaloedd rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

Ffiniau llywodraeth leol perthnasol

- 2.5 Mae'r Ddeddf yn dweud y caiff y Comisiwn ystyried "ffiniau llywodraeth leol" wrth iddo ddatblygu ei gynigion ar gyfer etholaethau seneddol. Mae'r Ddeddf yn diffinio ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol a oedd yn bodoli neu'n "arfaethedig" ar "ddyddiad yr arolwg".
- 2.6 Ar gyfer Arolwg 2023, mae hyn yn golygu mai'r ffiniau llywodraeth leol y cyfeirir atynt yw'r rhai hynny a oedd mewn grym ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau arfaethedig yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Mae'r ffiniau llywodraeth leol hyn i'w gweld yng nghynnyrch mapio BoundaryLine yr Arolwg Ordnans (fersiwn mis Hydref 2020 sydd ar gael yn www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/boundaryline).

Pennod 3:

Datblygu cynigion – gofynion a pholisi

Amrediad etholwyr statudol

- 3.1 Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn amlinellu nifer o Reolau (a atgynhychir yn Atodiad B y canllaw hwn) sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol. Yr un pennaf o'r rhain yw Rheol 2, sy'n darparu – heblaw am 5 eithriad penodedig yn y Deyrnas Unedig – bod rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o 'gwota etholiadol y Deyrnas Unedig'. Cwota etholiadol y Deyrnas Unedig ar gyfer Arolwg 2023, i'r rhif cyfan agosaf, yw 73,393.
- 3.2 Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw Ynys Môn.
- 3.3 Felly, ar wahân i Ynys Môn, mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 69,724 ac nad yw'n fwy na 77,062. Cyfeiriwn at y paramedrau hyn fel yr 'amrediad etholiadol statudol'.

Ffactorau statudol eraill

- 3.4 Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau eraill y caiff y Comisiwn eu hystyried wrth iddo ddatblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol, yn benodol:
 - ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
 - ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020 (gweler 2.5 uchod)
 - ffiniau etholaethau presennol
 - unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
 - yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath.

Ystyriaethau daearyddol arbennig

- 3.5 Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar ffiniau etholaethau yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol, fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd, yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau eraill posibl ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried y ffactor ar wahân yn ymwneud â chysylltiadau lleol.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

- 3.6 Gallai'r Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei gynigion a'i argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedau neu wardiau cymunedol mewnol. Rhoddir mwy o wybodaeth am y ffiniau llywodraeth leol sy'n berthnasol i'r dibenion hyn ym Mhennod 2 y canllaw hwn.
- 3.7 Bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag,

mae'n bosibl y bydd angen croesi'r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.

- 3.8 Bydd y Comisiwn yn defnyddio wardiau etholiadol fel sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
- 3.9 Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac y mae dealltwriaeth dda ohonynt, ac yn gyffredinol maen nhw'n dynodi ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pan fydd yn ddymunol rhannu wardiau etholiadol, yn enwedig wrth ystyried yr holl ffactorau a amlygwyd yn Rheolau 2 i 5.
- 3.10 Mae'r Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi cael eu creu i gydnabod cysylltiadau lleol, a'u bod felly'n debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, polisi'r Comisiwn yw peidio â rhannu cymunedau presennol pan fydd yn datblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol, oni bai nad oes datrysiad arall ar gael a fyddai'n caniatáu ar gyfer cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.

Ffiniau etholaethau presennol

- 3.11 Mae'r Comisiwn yn bwriadu parchu etholaethau presennol lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid ystyried bod etholaeth bresennol wedi'i diogelu rhag newid dim ond oherwydd bod ei nifer etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Nid yw ychwaith yn golygu y gall etholaeth sydd ychydig bach yn unig y tu allan i'r amrediad statudol ddisgwyl o reidrydd cael ei diwygio ychydig bach yn unig i ddod o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau yng Nghymru yw ei bod yn eithaf bosibl y bydd angen newid etholaethau presennol sydd â nifer etholwyr o fewn yr amrediad statudol er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf ledled Cymru.

Yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

- 3.12 Gall y Comisiwn ystyried yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath, fel y nodir yn Rheol 5 o Atodlen 2 o'r Ddeddf. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol y bydd anghyfleustra newidiadau yng Nghymru yn fawr oherwydd y gostyngiad sylweddol yn nifer yr etholaethau yng Nghymru a fydd yn deillio o Adolygiad 2023. Bydd hyn yn golygu bod yr holl etholaethau presennol (ac eithrio Ynys Môn) yn debygol iawn o fod yn destun rhywfaint o newid er mwyn galluogi'r Comisiwn i greu set o etholaethau ledled Cymru gyfan. Felly bydd y Comisiwn yn ceisio lleihau'r anghyfleustra trwy greu etholaethau sy'n ystyried ffiniau llywodraeth leol a thrwy ddefnyddio cymunedau cyfan a wardiau etholiadol cyfan le bo hynny'n bosibl.

Cydadwaith yr ystyriaethau

- 3.13 Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Reol 2.
- 3.14 Er bod rhaid i etholaethau yng Nghymru (heblaw am Ynys Môn) gydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol (fel y'i disgrifir ym mharagraff 3.3 uchod), nid yw'r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn creu etholaethau â nifer

etholwyr sydd mor agos â phosibl i gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn credu ei bod yn briodol dilyn amcan polisi o wyro cyn lleied â phosibl oddi wrth gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Byddai amcan o'r fath yn tansilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5. Felly, er enghraifft, byddai'n well gan y Comisiwn argymhell etholaeth a chanddi, dyweder, amrywiant 4% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, ond a oedd yn parchu wardiau etholiadol presennol, na dewis amgen a oedd yn creu etholaeth ag amrywiant 1% yn unig ond a fyddai'n rhannu wardiau etholiadol presennol.

- 3.15 Cyn belled ag y bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio argymhell etholaethau:

- wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol cyfan sy'n agos i'w gilydd
- nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle y byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid teithio trwy etholaeth wahanol.

Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

- 3.16 Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Fel y cyfryw, nid yw patrymau pleidleisio presennol na ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

- 3.17 Y ffiniau llywodraeth leol y caiff y Comisiwn eu hystyried – fel yr esboniwyd ym Mhennod 2 – yw'r rhai hynny a fodolai yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau 'arfaethedig' yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). O ganlyniad, ni fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau llywodraeth leol newydd nad oeddent yn bodoli ac na ddarparwyd ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth ar y dyddiad hwnnw.

Newidiadau i niferoedd etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020

- 3.18 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y gofrestr etholiadol ar 2 Mawrth 2020. Ni all ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru etholwyr y gellid honni ei fod yn bodoli mewn ardaloedd penodol ar y dyddiad hwnnw.

Enwi a dynodi etholaethau

- 3.19 Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

Enwi

- 3.20 Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os nad yw etholaethau wedi'u newid i raddau helaeth, dylid cadw enw presennol yr etholaeth, fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros wneud hynny.
- 3.21 Ar gyfer etholaeth newydd, dylai'r enw fel arfer adlewyrchu enw'r prif gyngor neu'r prif gynghorau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes gwrthwynebiad i'r enw arfaethedig a bod enw amgen addas sydd â mwy o gefnogaeth leol, bydd y Comisiwn yn argymhell y dewis amgen hwnnw fel arfer.
- 3.22 Mae'r Comisiwn yn defnyddio enwau pwyntiau'r cwmpawd (Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin) pan nad oes enw mwy addas. Yn gyffredinol, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at ardal y prif gyngor neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddill yr enw'n cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys 'Carmarthen West and South Pembrokeshire' a 'Swansea West'.
- 3.23 Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru gael enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Felly, bydd y Comisiwn yn argymhell y dylai dewisiadau amgen swyddogol gael eu darparu yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd dewis amgen pan

fydd enw etholaeth yn dderbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dynodi

- 3.24 Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu gofyniad i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n 'etholaeth sirol' (county constituency) neu'n 'etholaeth fwrdeistrefol' (borough constituency). Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylid fel arfer eu dynodi'n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.

Y Gymraeg

- 3.25 Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gydradd, ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall.
- 3.26 Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu yn y gwrandawriadau cyhoeddus (gweler Pennod 4).
- 3.27 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei holl ddogfennau canllaw ac adroddiadau a'r cynrychiolaethau a gaiff drwy gydol Arolwg 2023 yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ei wefan.

Effaith y ddeddfwriaeth

- 3.28 Fel y disgrifiwyd uchod, bydd y Ddeddf yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael eu lleihau o 40 i 32, ac mae'n rhaid i bob etholaeth (heblaw am Ynys Môn, fel y nodwyd ym mharagraff 3.2) fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn newid patrwm presennol yr etholaethau yng Nghymru yn sylweddol.
- 3.29 Hoffai'r Comisiwn egluro'r cychwyn cyntaf ei bod yn anochel, o gofio'r nifer gymharol fach o etholwyr mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, y bydd rhai etholaethau sy'n fawr yn ddaeryddol. Hefyd, o ganlyniad i'r niferoedd cyfyngedig o etholwyr mewn rhai o ardaloedd Cymoedd De Cymru, gallai etholaethau gael eu ffurfio sy'n cwmpasu mwy nag un cwm. Yn ogystal, mewn rhai ardaloedd ni fydd modd osgoi rhannu prif gynghorau. Bydd angen cyfaddawdu er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n cydymffurfio â Rheolau'r ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig deall y gallai hyd yn oed newidiadau bach i un etholaeth effeithio ar ardaloedd cyfagos, ac ar Gymru gyfan o bosibl.

Pennod 4:

Datblygu cynigion

- 4.1 Bydd Arolwg 2023 yn dilyn proses fanwl a osodwyd gan y Ddeddf. Mae'r broses honno'n cynnwys datblygu cynigion gan y Comisiwn, a ddilyniir gan gyfleoedd i unigolion a sefydliadau gyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig a gwneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawriadau cyhoeddus.
- 4.2 Ar ddiwedd y broses, bydd y Comisiwn yn paratoi adroddiad terfynol sy'n cynnwys ei argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol yng Nghymru. Yna, bydd yr argymhellion hynny'n cael eu rhoi ar waith gan broses yn y Senedd, a byddant yn dod i rym yn etholiad cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig.

Pwysigrwydd cyfranogi

- 4.3 Mae'r Comisiwn eisiau annog unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb yn ei gynigion ar gyfer eu hardal i wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig neu lafar i'r Comisiwn, boed hynny o blaid neu yn erbyn y cynigion.
- 4.4 Gofynnir i'r rhai hynny sy'n rhoi eu barn – boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig – ddweud p'un a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn. Cynghorir gwrthwynebwyr, yn arbennig, i ddweud beth fyddent yn ei gynnig yn lle cynigion y Comisiwn. Mae'n debygol y bydd mwy o bwys yn cael ei roi i wrthwynebiad sy'n cynnwys gwrthgynnig ymarferol na datganiad syml o wrthwynebiad. Yn hyn o beth – ac yn enwedig o ystyried pwysigrwydd yr amrediad etholwyr statudol – bydd gwrthgynnig sy'n mynd i'r afael â chyfansoddiad pob etholaeth mewn ardal yn cael ei ystyried yn fwy perswadiol, yn gyffredinol, na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw sgil-ffeithiau ar ffigurau etholwyr etholaethau eraill.
- 4.5 Anogir unigolion a sefydliadau yn arbennig i wneud cynrychiolaethau ar gam priodol o'r broses statudol. Er enghraifft, gallai pobl nad ydynt yn cyflwyno cynrychiolaethau o blaid cynigion cychwynnol y Comisiwn ganfod bod y Comisiwn yna'n cyhoeddi, yn sgil gwrthwynebiadau a gafwyd gan bobl eraill, cynigion diwygiedig neu argymhellion terfynol nad ydynt yn eu cefnogi. Felly, mae'n bwysig (er enghraifft) bod pobl sy'n cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn yn dweud hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol (a ddisgrifir ymhellach isod).
- 4.6 Bydd cyfranogi'n llawn ac yn amserol yn Arolwg 2023 yn helpu'r Comisiwn i ddeall safbwyntiau lleol ynglŷn â'i gynigion yn fwy cywir a bydd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd argymhellion terfynol y Comisiwn yn dderbyniol yn gyffredinol i fwyafrif y bobl y bydd yn rhaid iddynt fyw a gweithio gyda nhw.
- 4.7 Os hoffech gael gwybod pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi dogfennau yn ymwneud ag Arolwg 2023, gallwch gofrestru i gael diweddariadau ar ein gwefan.

Paratoi cynigion cychwynnol

- 4.8 Ar ddechrau'r broses statudol, bydd y Comisiwn yn paratoi ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau seneddol yng Nghymru.
- 4.9 Bydd y Comisiwn yn datblygu ei gynigion cychwynnol yng ngoleuni'r rheolau a'r ffactorau y cyfeiriwyd atynt ym Mhennod 3 y canllaw hwn. Ni fydd y Comisiwn yn defnyddio un man cychwyn daearyddol a bennwyd o flaen llaw i ddatblygu ei gynigion. Yn lle hynny, bydd ystod eang o opsiynau'n cael eu hystyried. Dim ond ar ôl ystyried nifer o gynlluniau etholaethau ar gyfer Cymru gyfan y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar gynigion cychwynnol.

Cyhoeddi cynigion cychwynnol

- 4.10 Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei gynigion cychwynnol, bydd yn cyhoeddi'r cynigion ac adroddiad cysylltiedig ar ei wefan, gyda gwybodaeth fanwl am sut a phryd y gellir cyflwyno safbwyntiau ar y cynigion hynny. Ar yr un pryd, bydd yn anfon copïau caled o'r cynigion at amryw 'fannau adneuo' lleol, lle y gall y cyhoedd weld y cynigion
- 4.11 Swyddfeydd yr awdurdod lleol perthnasol fydd y manau adneuo lle y gall y cyhoedd archwilio'r cynigion, fel arfer, er y gellir defnyddio manau eraill fel llyfrgelloedd cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir etholaethau sy'n fawr yn ddaearyddol. Cyhoeddir rhestr lawn o fannau adneuo ar wefan y Comisiwn ar yr un pryd â'r cynigion.
- 4.12 Yn ogystal â'r cynigion cychwynnol a'i adroddiad arnynt, i helpu'r cyhoedd i ddeall y cynigion yn well, bydd y Comisiwn yn darparu mapiau manwl yn y manau adneuo ac ar ei wefan sy'n dangos, ymhlith gwybodaeth arall, enw, dynodiad a ffin arfaethedig pob etholaeth arfaethedig.
- 4.13 Er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion cychwynnol, bydd y Comisiwn yn dechrau ymgyrch hysbysebu sy'n canolbwyntio ar dynnu sylw'r cyhoedd at y cynigion a'r cyfle i gyflwyno safbwyntiau arnynt. Bydd y Comisiwn hefyd yn anfon copïau o'i gynigion at bartïon â buddiant (er enghraifft, prif gynghorau ac Aelodau Seneddol). Bydd prif gynghorau a Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn cael copïau o'r mapiau manwl hefyd.

Cyfnod ymgynghori cychwynnol

- 4.14 Ar ôl i gynigion cychwynnol y Comisiwn gael eu cyhoeddi, bydd cyfnod 8 wythnos pryd y gellir gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig i'r Comisiwn ynglŷn â'r cynigion cychwynnol. Gelwir hyn yn 'gyfnod ymgynghori cychwynnol'.
- 4.15 Bydd manylion ynglŷn â sut y gall unigolion a sefydliadau wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, gan gynnwys y dyddiad olaf ar gyfer derbyn cynrychiolaethau, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol eu hunain. Mae'n hollbwysig bod cynrychiolaethau'n cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau eu bod yn cael eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

Cyfnod ymgynghori eilaidd

- 4.16 Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori cychwynnol, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau a gafodd yn ystod y cyfnod hwnnw ar ei wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.17 Pan fydd y cynrychiolaethau wedi cael eu cyhoeddi, bydd cyfnod arall o 6 wythnos pryd y gall pobl gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Gelwir y cyfnod arall hwn o 6 wythnos yn 'gyfnod ymgynghori eilaidd'.
- 4.18 Felly, yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd, gellir cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn sy'n herio neu'n cefnogi honiadau a wnaed gan bobl eraill mewn cynrychiolaethau ysgrifenedig blaenorol.
- 4.19 Mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Gwrandawiadau cyhoeddus

- 4.20 Yn ôl y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal o leiaf 2 a dim mwy na 5 gwrandawiad cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud â chynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer Cymru a byddant, gyda'i gilydd, yn cwmpasu Cymru gyfan.
- 4.21 Bydd manylion ynglŷn â lleoliadau a dyddiadau'r gwrandawiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.
- 4.22 Bwriedir i wrandawiad cyhoeddus roi cyfle i bobl wneud cynrychiolaethau llafar ynglŷn ag unrhyw un o gynigion cychwynnol y Comisiwn (gan gynnwys enwi etholaethau) a chyflwyno unrhyw wrthgynigion.
- 4.23 Mae cynrychiolaethau ym mhob gwrandawiad cyhoeddus yn debygol o ganolbwyntio ar gynigion ar gyfer yr ardal sydd agosaf i leoliad y gwrandawiad, ond gellir gwneud cynrychiolaethau sy'n ymwneud ag unrhyw ran o Gymru.
- 4.24 Bydd pob gwrandawiad yn cael ei gadeirio gan Gomisiynydd Cynorthwyol, sy'n rheoli'r digwyddiad. Caiff y cadeirydd benderfynu ym mha drefn y gwahoddir cyfranogwyr i siarad, faint o amser a neilltuir i siaradwyr unigol, a phwy y caniateir iddo siarad (os yw amser yn brin). Bydd y cadeirydd hefyd yn rheoli'r broses o holi unigolion sy'n gwneud cynrychiolaethau a phobl eraill yn y gwrandawiad.
- 4.25 Pan fydd manylion ynglŷn â dyddiadau a lleoliadau'r gwrandawiadau cyhoeddus wedi cael eu cyhoeddi, anogir unigolion sy'n dymuno gwneud cynrychiolaethau llafar yn un o'r gwrandawiadau roi gwybod i'r Comisiwn o flaen llaw. Bydd manylion ynglŷn â sut i wneud cais am slot siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ar ôl y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Bydd y Comisiwn yn ceisio bodloni ceisiadau unigol am amser neu ddyddiad penodol, ond ni all warantu y bydd hyn yn bosibl.
- 4.26 Gallai'r amser sydd ar gael ar gyfer slotiau siarad fod yn gyfyngedig, felly, yn ddelfrydol, dylai cynrychiolaethau fod yn glir, yn gryno ac yn benodol. Mae'n bosibl y bydd angen i'r rhai hynny sy'n bwriadu siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus fod yn weddol hyblyg ynglŷn â phryd yn union y gofynnir iddynt ddechrau a gorffen eu cynrychiolaethau hefyd.
- 4.27 Er mwyn helpu'r Comisiynydd Cynorthwyol i reoli'r gwrandawiad, mae'n debygol y bydd yn ddefnyddiol petai crynodeb neu amlinelliad o'r pwyntiau y mae pob siaradwr yn dymuno eu gwneud yn cael ei ddarparu o flaen llaw. Am resymau ymarferol, bydd hefyd angen i'r Comisiwn gael gwybod o flaen llaw am unrhyw gymhorthion gweledol a fydd yn cael eu defnyddio wrth wneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus, a derbyn y cymhorthion gweledol hynny o flaen llaw.

- 4.28 Cyn belled ag y bo modd, bydd manylion am y gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi cyn y gwrandawiadau.
- 4.29 Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu ffrydio'n fyw ar wefan y Comisiwn a bydd opsiynau ar gyfer capsynau caeëdig a chyfieithu ar y pryd ar gael.
- 4.30 Mae'r Comisiwn yn ystyried y trefniadau amgen y bydd angen iddo eu sefydlu os bydd cyfyngiadau presennol COVID-19 yn parhau i fod ar waith ar adeg ei wrandawiadau cyhoeddus. Rhoddir mwy o wybodaeth am unrhyw drefniadau amgen maes o law.

Ystyried cynrychiolaethau a chynigion diwygiedig

- 4.31 Ar ôl gwrandawiadau cyhoeddus y Comisiwn, bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r cyfnod ymgynghori eilaidd, yn ogystal â'r holl gynrychiolaethau llafar a wnaed mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd. Yna, bydd Comisiynydd Cynorthwyol 'arweiniol' yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y Comisiwn, yn crynhoi ac yn ystyried y cynrychiolaethau ac yn argymhell p'un a ddylai cynigion cychwynnol y Comisiwn gael eu diwygio yng ngoleuni'r cynrychiolaethau hynny, ac os felly, sut.
- 4.32 Bydd y Comisiwn yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu p'un a ddylid diwygio ei gynigion cychwynnol ac, os felly, i ba raddau.

Trydydd cyfnod ymgynghori

- 4.33 Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori eilaidd, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd ar ei wefan, ynghyd â thrawsgrifiadau o'i wrandawiadau cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.34 Pan fydd y cynrychiolaethau a'r trawsgrifiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi, bydd cyfnod arall o 4 wythnos pan fydd unigolion a sefydliadau'n gallu cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â chynrychiolaethau a wnaed yng ngwrandawiadau cyhoeddus y Comisiwn. Gellir gwneud sylwadau sy'n herio neu'n cefnogi honiadau a dadleuon a wnaed yn y gwrandawiadau.
- 4.35 Gelwir y cyfnod arall hwn o 4 wythnos yn 'drydydd cyfnod ymgynghori'.
- 4.36 Os bydd y Comisiwn yn penderfynu diwygio ei gynigion cychwynnol ar ôl y cyfnod ymgynghori eilaidd, bydd yn cyhoeddi ei gynigion diwygiedig, ynghyd ag adroddiad cysylltiedig, cyn i'r trydydd cyfnod ymgynghori ddechrau. Bydd unrhyw gynigion diwygiedig a deunyddiau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn a'u hanfon at fannau adneuo lleol yn yr un modd ag a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 4.10 i 4.12 uchod.
- 4.37 Gellir gwneud cynrychiolaethau ynglŷn ag unrhyw gynigion diwygiedig yn ystod 4 wythnos y trydydd cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw wrandawiadau cyhoeddus ynglŷn â chynigion diwygiedig, ac nid yw'r Ddeddf ychwaith yn rhoi cyfle arall i wneud cynrychiolaethau mewn ymateb i gynrychiolaethau pobl eraill.
- 4.38 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y trydydd cyfnod

ymgyngori ynglŷn ag unrhyw gynigion diwygiedig yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Comisiwn ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei argymhellion terfynol.

Argymhellion ac adroddiad terfynol

- 4.39 Ar ôl diwedd y trydydd cyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried pa argymhellion terfynol i'w gwneud ar gyfer etholaethau seneddol yng Nghymru. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, y cyfnod ymgynghori eilaidd a'r trydydd cyfnod ymgynghori (gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw gynigion diwygiedig a gyhoeddwyd gan y Comisiwn cyn y trydydd cyfnod ymgynghori), a'r holl gynrychiolaethau a wnaed yng ngwrandawiadau cyhoeddus y Comisiwn. Ni fydd y modd y gwnaed cynrychiolaeth (boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig) yn effeithio ar faint o bwys y bydd y Comisiwn yn ei roi i'r gynrychiolaeth honno wrth ystyried ei argymhellion terfynol.
- 4.40 Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei argymhellion terfynol ar gyfer Cymru, bydd yn paratoi ac yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ffurfiol i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin erbyn 1 Gorffennaf 2023. Bydd yr adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn pan fydd y Llefarydd wedi'i gyflwyno gerbron y Senedd, yn cynnwys disgrifiad o arolwg y Comisiwn, disgrifiad o argymhellion terfynol y Comisiwn, a chyfres o fapiau i ddangos yr etholaethau presennol a'r rhai hynny a argymhellir gan y Comisiwn.
- 4.41 Cyflwyno'r adroddiad terfynol ffurfiol fydd diwedd rôl y Comisiwn ym mhroses yr arolwg. Llywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am y weithdrefn ar gyfer gweithredu'r etholaethau a argymhellir, ac amlinellir y weithdrefn honno yn y bennod nesaf.

Ar ôl yr adroddiad terfynol

Gweithdrefn Seneddol

- 5.1 Ar ôl i'r Llefarydd dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, mae'n rhaid iddo ei gyflwyno gerbron y Senedd. Pan fydd adroddiadau gan y 4 Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cyflwyno gerbron y Senedd, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog Swyddfa'r Cabinet gyflwyno drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i'w Mawrhydi yn Ei Chyngor i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau.
- 5.2 Wrth baratoi'r drafft, ni chaiff y Llywodraeth addasu argymhellion unrhyw un o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol, oni bai y gofynnwyd iddi wneud hynny'n benodol (yn ysgrifenedig a chyda rhesymau) gan y Comisiwn Ffiniau Seneddol perthnasol.
- 5.3 Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, bydd yr etholaethau newydd yn dod i rym yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Mae'n rhaid i unrhyw is-etholiadau a gynhelir yn y cyfamser gael eu cynnal ar sail yr hen etholaethau (presennol).

Cyfansoddiad y Comisiwn

Yn unol ag Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

1. **Cadeirydd**
Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd pob un o'r 4 Comisiwn Ffiniau. Penodiad ex officio yw hwn ac, yn gyffredinol, nid yw'r Llefarydd yn chwarae unrhyw ran yng ngwaith gwirioneddol y Comisiwn.
2. **Tri aelod arall**
 - i.) Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Comisiwn, yn farnwr yr Uchel Lys a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.
 - ii.) Caiff dau aelod arall eu penodi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae aelodaeth bresennol y Comisiwn i'w gweld ar ei wefan.
3. **Dau aseswr** (sydd ar gael i roi cyngor a chymorth technegol fel y bo'r angen)
 - i.) Y Bwrdd Ystadegau.
 - ii.) Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.
4. **Ysgrifennydd**
Caiff yr ysgrifennydd ei benodi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.
5. **Comisiynwyr Cynorthwyol**
Caiff Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i helpu'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Gall Comisiynwyr Cynorthwyol, a benodir, er enghraifft, weithredu fel Cadeiryddion yn y gwrandawliadau cyhoeddus.

Rheolau ar gyfer etholaethau

(Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd))

- 1 **Nifer yr etholaethau**
Nifer yr etholaethau yn y Deyrnas Unedig fydd 650.
- 2 **Etholwyr fesul etholaeth**
(1) Bydd nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth –
(a) ddim llai na 95% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, a
(b) dim mwy na 105% o'r cwota hwnnw.

(2) Mae'r rheol hon yn amodol ar reolau 4(2), 6(3) a 7.
(3) Yn yr Atodlen hon, ystyr 'cwota etholiadol y Deyrnas Unedig' yw – U/645 lle mae U yn sefyll am etholwyr y Deyrnas Unedig llai nifer yr etholwyr yn yr etholaethau a grybwyllir yn rheol 6.
- 3 **Dyrannu etholaethau i rannau o'r Deyrnas Unedig**
(1) Bydd pob etholaeth yn gyfan gwbl o fewn un o 4 rhan y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).
(2) Caiff nifer yr etholaethau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ei phennu yn unol â'r dull dyrannu a amlinellir yn rheol 8.
- 4 **Arwynebedd etholaethau**
(1) Ni fydd gan etholaeth arwynebedd o fwy nag 13,000 cilometr sgwâr.
(2) Nid oes rhaid i etholaeth gydymffurfio â rheol 2(1) (a) –
(a) os oes ganddi arwynebedd o fwy na 12,000 cilomedr sgwâr, ac
(b) mae'r Comisiwn Ffiniau dan sylw yn fodlon nad yw'n rhesymol bosibl i'r etholaeth gydymffurfio â'r rheol honno.
- 5 **Ffactorau**
(1) Caiff Comisiwn Ffiniau ystyried, os ac i'r graddau y gwêl orau –
(a) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth,
(b) ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli, neu sydd yn yr arfaeth, ar ddyddiad yr arolwg,
(c) ffiniau etholaethau presennol,
(d) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau, ac
(e) yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath.

(1A) Yn achos ffin llywodraeth leol sydd yn yr arfaeth ar ddyddiad yr arolwg, y ffin honno y gellir ei hystyried o dan is-baragraff (1)(b) yn hytrach nag unrhyw ffin bresennol y mae'n ei disodli.
[...]

(3) Mae'r rheol hon mewn grym yn amodol ar reolau 2 a 4.

- 6 **Etholaethau gwarchoddedig**
(1) Bydd 2 etholaeth ar Ynys Wyth.
(2) Bydd y canlynol yn parhau –

(a) etholaeth o'r enw 'Orkney and Shetland', sy'n cynnwys ardaloedd Cyngor Ynysoedd Erch a Chyngor Ynysoedd Shetland
(b) etholaeth o'r enw Na h-Eileanan an Iar, sy'n cynnwys ardal Comhairle nan Eilean Siar. ac
(c) etholaeth o'r enw Ynys Môn, sy'n cynnwys ardal Cyngor Sir Ynys Môn.
(3) Nid yw rheol 2 yn berthnasol i'r etholaethau hyn.

[...]

- 8 **Y dull dyrannu**
(1) Mae'r dull dyrannu y cyfeirir ato yn rheol 3(2) fel a ganlyn.
(2) Caiff yr etholaeth gyntaf ei dyrannu i'r rhan o'r Deyrnas Unedig sydd â'r nifer fwyaf o etholwyr.
(3) Caiff yr ail etholaeth a'r etholaethau dilynol eu dyrannu yn yr un modd, ac eithrio bod nifer yr etholwyr mewn rhan o'r Deyrnas Unedig y dyrannwyd un neu fwy o etholaethau iddi'n barod i'w rhannu â – 2C+1 lle mae C yn cynrychioli nifer yr etholaethau sydd eisoes wedi'u dyrannu i'r rhan honno.
(4) Lle mae'r ffigur a roddwyd gan is-baragraff (3) uchod yr un fath ar gyfer 2 neu fwy o rannau o'r Deyrnas Unedig, y rhan y caiff etholaeth ei dyrannu iddi fydd yr un sydd â'r nifer etholwyr lai neu'r nifer etholwyr wirioneddol leiaf.
(5) Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i'r etholaethau a grybwyllir yn rheol 6, ac felly –
(a) (a) caiff nifer etholwyr Lloegr ei thrin at ddibenion y rheol hon fel nifer sydd wedi'i lleihau gan nifer etholwyr yr etholaethau a grybwyllir yn rheol 6(1),
(b) caiff nifer etholwyr yr Alban ei thrin at ddibenion y rheol hon fel nifer sydd wedi'i lleihau gan nifer etholwyr yr etholaethau a grybwyllir yn rheol 6(2)(a) a (b), a
(c) (c) caiff nifer etholwyr Cymru ei thrin at ddibenion y rheol hon fel nifer sydd wedi'i lleihau gan nifer etholwyr yr etholaeth a grybwyllir yn rheol 6(2)(c).

- 9 **Dehongli**
(1) Mae'r rheol hon mewn grym at ddibenion yr Atodlen hon.
(2) Yn amodol ar is-baragraff (2A), 'etholwyr' y Deyrnas Unedig, neu ran o'r Deyrnas Unedig neu etholaeth, yw cyfanswm nifer y bobl y mae eu henwau'n ymddangos ar y fersiwn berthnasol o gofrestr etholwyr seneddol mewn perthynas â chyfeiriadau yn y Deyrnas Unedig, neu yn y rhan honno neu'r etholaeth honno.

At y diben hwn, y fersiwn berthnasol o gofrestr yw'r fersiwn sy'n ofynnol yn rhinwedd is-adran (1) adran 13 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w chyhoeddi ddim hwyrach na dyddiad yr arolwg, neu a fyddai'n ofynnol oni bai am –

- (a) unrhyw bŵer o dan yr adran honno i bennu dyddiad diweddarach, neu
(b) is-adran (1A) yr adran honno.

- (2A) O ran adroddiad o dan adran 3(1) y mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau (yn ôl adran 3(2)) ei gyflwyno cyn 1 Gorffennaf 2023, 'etholwyr' y Deyrnas Unedig, neu ran o'r Deyrnas Unedig neu etholaeth, yw cyfanswm nifer y bobl y mae eu henwau'n ymddangos ar gofrestr etholwyr seneddol (a gynhelir o dan adran 9 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983) mewn perthynas â chyfeiriadau yn y Deyrnas Unedig, neu yn y rhan honno neu'r etholaeth honno, gan y bydd y gofrestr honno mewn grym ar 2 Mawrth 2020.

- (3) ‘Ffiniau llywodraeth leol’ yw –
- yn Lloegr, ffiniau siroedd a’u wardiau etholiadol, dosbarthiadau a’u wardiau, bwrdeistrefi Llundain a’u wardiau a Dinas Llundain,
 - yng Nghymru, ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol,
 - yn yr Alban, ffiniau ardaloedd llywodraeth leol a’r wardiau etholiadol y’u rhennir iddynt o dan adran 1 Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 2004, ac
 - yng Ngogledd Iwerddon, ffiniau wardiau.
- (3A) Mae ffin llywodraeth leol ‘yn yr arfaeth’ ar ddyddiad penodol os, ar y dyddiad hwnnw –
- yw’n cael ei nodi mewn darpariaeth deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, ond
 - nid yw’r ddarpariaeth honno mewn grym eto at bob diben.
- (3B) At y diben hwnnw –
- Mae ‘deddfwriaeth sylfaenol’ yn golygu –
 - Deddf Seneddol,
 - Deddf Senedd yr Alban,
 - Deddf Senedd Cymru, neu
 - ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon, ac
 - Mae ‘is-ddeddfwriaeth’ yn golygu offeryn a wnaed o dan ddeddfwriaeth sylfaenol.
- (4) ‘diwrnod arferol ethol cynghorwyr’ yw –
- mewn perthynas â Chymru a Lloegr, y diwrnod cyffredin ethol cynghorwyr ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol,
 - mewn perthynas â’r Alban, y diwrnod y cynhelir y bleidlais mewn etholiadau cynghorwyr cyffredin ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol, ac
 - mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, y diwrnod etholiad ar gyfer unrhyw gyngor dosbarth (ac eithrio etholiad i lenwi swydd wag achlysurol).
- (5) ‘Dyddiad yr arolwg’, mewn perthynas ag adroddiad o dan adran 3(1) y Ddeddf hon y mae’n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau (yn ôl adran 3(2)) ei gyflwyno cyn dyddiad penodol, yw –
- 1 Rhagfyr 2020 yn achos adroddiad y mae’n ofynnol ei gyflwyno cyn 1 Gorffennaf 2023, ac
 - yn achos adroddiad y mae’n ofynnol ei gyflwyno cyn unrhyw ddyddiad penodol arall, y dyddiad sy’n 2 flynedd a 10 mis cyn y dyddiad hwnnw.
- (Er enghraifft, 1 Rhagfyr 2028 yn achos adroddiad y mae’n ofynnol ei gyflwyno cyn 1 Hydref 2031).
- (6) Mae ystyr ‘cwota etholiadol y Deyrnas Unedig’ wedi ei bennu gan reol 2(3).
- (7) Mae cyfeiriad yn rheol 6(2)(a) neu (b) at ardal, yn golygu cyfeiriad at yr ardal fel yr oedd yn bodoli pan ddaeth Rhan 2 Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 i rym, ac mae’r cyfeiriad yn rheol 6(2)(c) at ardal Cyngor Sir Ynys Môn yn golygu cyfeiriad at yr ardal fel yr oedd yn bodoli pan ddaeth yr Atodlen i Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020 i rym.

Atodiad C:

Geirfa a byrfoddau

Y Ddeddf	Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y’i diwygiwyd).
Aseswr	Cynghorydd technegol i’r Comisiwn a benodwyd yn statudol, sef naill ai’r Bwrdd Ystadegau neu Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.
Comisiynydd Cynorthwyol	Unigolyn a benodwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gais y Comisiwn i helpu’r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau.
Etholaeth fwrdeistrefol – Talfyrrir i BC	Etholaeth seneddol sy’n cynnwys ardal drefol yn bennaf.
Cymuned (ardaloedd a wardiau)	Mae Cymru gyfan wedi’i rhannu’n ardaloedd cymunedol. Mae gan lawer o ardaloedd cymunedol gyngor cymuned neu gyngor tref. Lle mae gan ardal gymunedol gyngor cymuned neu gyngor tref, gellir trefnu’r ardaloedd hyn yn wardiau at ddibenion etholiadol. Caiff wardiau etholiadol Cymru eu creu gan ddefnyddio’r ardaloedd (a’r wardiau) cymunedol hyn fel eu sylfeini.
Etholaeth sirol – Talfyrrir i CC	Etholaeth seneddol sy’n cynnwys elfen wledig sylweddol.
Dynodiad	Dosbarthiad naill ai fel ‘etholaeth fwrdeistrefol’ (borough constituency) neu ‘etholaeth sirol’ (county constituency).
Cwota etholiadol	Nifer gyfartalog yr etholwyr fesul etholaeth yn y Deyrnas Unedig, a geir trwy rannu cyfanswm nifer yr etholwyr yn y Deyrnas Unedig â 645 (sef nifer yr etholaethau seneddol ar gyfer y Deyrnas Unedig llai’r rhai sydd ag eithriadau penodol).
Ward etholiadol	Yr ardaloedd y caiff ardaloedd prif gynghorau yng Nghymru eu rhannu iddynt at ddibenion ethol aelodau’r prif gyngor; cyfeiriwyd atynt gynt fel adrannau etholiadol.
Etholwyr	Nifer yr etholwyr seneddol cofrestredig mewn ardal benodol.
Argymhellion terfynol	Yr argymhellion a geir yn adroddiad y Comisiwn i Lefarydd Tŷ’r Cyffredin ar ddiwedd arolwg o dan y Ddeddf.
Cyfnod ymgynghori cychwynnol	Cyfnod penodedig o 8 wythnos pryd y caiff unigolion a sefydliadau wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig i’r Comisiwn ynglŷn â’i gynigion cychwynnol.
Cynigion cychwynnol	Y cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau seneddol yng Nghymru y bydd y Comisiwn yn eu cyhoeddi yn ystod Arolwg 2023.

Prif gyngor

Elfen haen sengl llywodraeth leol sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau llywodraeth leol, neu'r rhan fwyaf ohonynt, yn ei hardal, a ddisodlodd system dwy haen o gynghorau sir a chynghorau dosbarth yng Nghymru: cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Gwrandawriad cyhoeddus

Cyfle ffurfiol mewn ardal benodol i bobl wneud cynrychiolaethau llafar, wedi'i gadeirio gan Gomisiynydd Cynorthwyol, fel arfer. Rhaid cynnal o leiaf 2 a dim mwy na 5 gwrandawriad cyhoeddus yng Nghymru, a rhaid cwblhau pob un ohonynt ymhen 2 ddiwrnod.

Cynrychiolaethau

Safbwyntiau a dadleuon a gyflwynir gan unigolion neu sefydliadau i'r Comisiwn ynglŷn â'i gynigion, naill ai o'u plaid neu yn eu herbyn, gan gynnwys gwrthgynigion a deisebau.

Cynigion diwygiedig

Cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol yng Nghymru a allai gael eu cyhoeddi gan y Comisiwn ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori eilaidd.

Cyfnod ymgynghori eilaidd


Cyfnod penodedig o 6 wythnos pryd y caiff unigolion a sefydliadau gyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig i'r Comisiwn ynglŷn â chynrychiolaethau a gyflwynwyd yn flaenorol yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Bydd gwrandawriadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Trydydd cyfnod ymgynghori

Cyfnod penodedig o 4 wythnos pryd y caiff unigolion a sefydliadau gyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig i'r Comisiwn ynglŷn â chynrychiolaethau llafar a wnaed yn ystod gwrandawriadau cyhoeddus, ac ynglŷn ag unrhyw gynigion diwygiedig y gallai'r Comisiwn eu cyhoeddi.

Appendix Ch:

Siart lif o'r broses





**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2021